# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 62
07/06/21

## Pedr yn dianc o'r carchar

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes
Delyth Wyn Davies a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net



Cafodd Pedr ei roi yn y carchar. Trefnwyd fod pedwar milwr ar wyliadwriaeth bob sifft. Bwriad Herod oedd dwyn achos cyhoeddus yn erbyn Pedr ar ôl y Pasg. Tra oedd Pedr yn y carchar roedd yr eglwys yn gweddïo'n daer ar Dduw drosto. Y noson cyn yr achos llys, roedd Pedr yn cysgu. Roedd wedi'i gadwyno i ddau filwr – un bob ochr iddo, a'r lleill yn gwarchod y fynedfa. Yn sydyn roedd angel yno, a golau'n disgleirio drwy'r gell. Rhoddodd bwniad i Pedr yn ei ochr i'w ddeffro. “Brysia!” meddai, “Cod ar dy draed!”, a dyma'r cadwyni'n disgyn oddi ar ei freichiau. Wedyn dyma'r angel yn dweud wrtho, “Rho dy ddillad amdanat a gwisga dy sandalau.” Ac ar ôl i Pedr wneud hynny, dyma'r angel yn dweud, “Tafla dy glogyn amdanat a dilyn fi.” Felly dyma Pedr yn ei ddilyn allan o'r gell – ond heb wybod a oedd y peth yn digwydd go iawn neu ai dim ond breuddwyd oedd y cwbl! Dyma nhw'n mynd heibio'r gwarchodwr cyntaf a'r ail, a chyrraedd y giât haearn oedd yn mynd allan i'r ddinas. Agorodd honno ohoni ei hun! Wedi mynd drwyddi a



cherdded i lawr y stryd dyma'r angel yn sydyn yn diflannu a gadael Pedr ar ei ben ei hun. Dyna pryd daeth ato'i hun. “Mae wedi digwydd go iawn! – mae'r Arglwydd wedi anfon ei angel i'm hachub i o afael Herod, fel bod yr hyn roedd yr Iddewon yn ei obeithio ddim yn digwydd i mi.”

Pan sylweddolodd hyn, aeth i gartref Mair, mam Ioan Marc. Roedd criw o bobl wedi dod at ei gilydd i weddïo yno. Dyma Pedr yn curo'r drws allanol, ac aeth morwyn o'r enw Rhoda i ateb y drws. Pan wnaeth hi nabod llais Pedr roedd hi mor llawen nes iddi redeg yn ôl i mewn i'r tŷ heb agor y drws! “Mae Pedr wrth y drws!” meddai hi wrth bawb. “Ti'n drysu,” medden nhw. Ond roedd Rhoda yn dal i fynnu fod y peth yn wir. “Mae'n rhaid mai ei angel sydd yna,” medden nhw wedyn. Roedd Pedr yn dal ati i guro'r drws, a chawson nhw'r sioc ryfedda pan agoron nhw'r drws a'i weld. Dyma Pedr yn rhoi arwydd iddyn nhw dawelu, ac esboniodd iddyn nhw sut roedd yr Arglwydd wedi'i ryddhau o'r carchar. “Ewch i ddweud beth sydd wedi digwydd wrth Iago a'r credinwyr eraill,” meddai, ac wedyn aeth i ffwrdd i rywle arall. Y bore wedyn roedd cynnwrf anhygoel ymhlith y milwyr ynglŷn â beth oedd wedi digwydd i Pedr.

*Actau 12:4-18 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Roedd Pedr wedi cael ei roi yn y carchar. Roedd yna bedwar milwr yn ei wylio trwy’r amser. Roedd ei ffrindiau yn gweddïo drosto. Y noson cyn i Pedr fynd o flaen y llys anfonodd Duw angel i’w ryddhau. Roedd Pedr wedi cael ei rwymo i ddau filwr â chadwyni. Cafodd ei ddeffro gan yr angel yn dweud wrtho “Brysia, cod ar dy draed.” Wrth i Pedr godi disgynnodd y cadwyni oddi ar ei arddyrnau. Gwisgodd Pedr ac yna rhoddodd ei glogyn dros ei ddillad. Cerddodd allan heibio’r milwyr i’r ddinas. Roedd Pedr yn meddwl ei fod yn breuddwydio. Sylweddolodd nad oedd yn breuddwydio a bod Duw wedi ei achub. Aeth Pedr i dŷ Mair, mam Ioan Marc. Dywedodd y forwyn wrth Mair fod Pedr yno ond doedd hi na’r bobl eraill oedd gyda hi ddim yn ei chredu. Cawson nhw sioc pan welson nhw Pedr. Dywedodd wrthynt sut oedd wedi dod yn rhydd ac meddai wrthynt, “Ewch i ddweud wrth y credinwyr beth sydd wedi digwydd.” Y bore wedyn, ar ôl iddynt sylweddoli fod Pedr wedi dianc, roedd y milwyr wedi eu syfrdanu. Doedden nhw ddim yn deall sut roedd hyn wedi digwydd.



# Cwestiynau i’w trafod



Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti’n breuddwydio dy fod wedi gwneud rhywbeth amhosibl weithiau?
2. Pam wyt ti’n credu fod Pedr yn meddwl ei fod yn breuddwydio ei fod wedi dianc?
3. Pa mor hawdd wyt ti’n meddwl oedd hi i Pedr ddianc o’r carchar?
4. Pan wyt ti’n gweddïo, wyt ti’n disgwyl i Dduw ateb dy weddi?

# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti fy mod yn cael siarad gyda Ti am bob dim.
Diolch i Ti dy fod Ti’n gwrando ar bob gweddi. Amen.



# Stori i'w lliwio

## Pedr yn dianc o'r carchar

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Cyn i Iesu ddychwelyd i'r nefoedd dywedodd wrth ei ddisgyblion i fynd a dweud wrth bawb, drwy'r byd i gyd, y Newyddion Da mai ef oedd y Meseia roedd Duw wedi ei addo.



Un o ddisgyblion Iesu oedd Pedr. Rhannodd â llawer o bobl y Newyddion Da am Fab Duw, yr Achubwr a atgyfododd, Iesu Grist. Roedd y Brenin Herod eisiau rhwystro i'r bobl glywed am Iesu.



Arestiwyd Pedr a'i garcharu gan Herod. Yna roedd Pedr am gael ei ddedfrydu wedi gwyliau'r Pasg. Bu Cristnogion yma ac acw'n gweddïo nos a dydd y byddai Duw'n cadw Pedr yn ddiogel ac yn ei ryddhau.



Am dridiau bu Pedr mewn cyffion ac yn cael ei warchod gan filwyr y brenin. Y noson cyn i Herod ei ddedfrydu aeth Pedr i gysgu'n dawel yn ffyddiog y byddai Duw gydag ef.



Yng nghanol y nos deffrodd angel Pedr a llanwyd y carchar â goleuni llachar. "Cod ar dy draed yn sydyn," meddai'r angel. "Gwisga dy ddillad, rho dy sandalau am dy draed a dilyna fi."



Gwnaeth Pedr yr hyn y gorchmynnodd yr angel iddo ei wneud. Wrth iddo sefyll, syrthiodd y cadwyni haearn, cryf roedd milwyr Herod wedi eu cloi am ei ddwylo i'r llawr ac roedd Pedr yn rhydd!



Dilynodd Pedr yr angel heibio'r milwyr oedd yn cysgu. Agorodd ddrysau a giatiau haearn y carchar heb i unrhyw un eu hagor. Roedd Pedr yn meddwl ei fod yn breuddwydio.



Unwaith roedden nhw allan ar y stryd diflannodd yr angel. Gwyddai Pedr mai Duw oedd wedi anfon yr angel i'w achub rhag y Brenin Herod. Prin y gallai ei ffrindiau gredu fod Pedr wedi dod yn rhydd.

# Sialensau

## Dis a chwpan




**Byddi angen:**
- Tri dis
- 2 gwpan blastig
- Amserydd - oriawr neu ffôn

Wyt ti'n gallu adeiladu tŵr o dri dis gyda chwpan blastig dros bob llaw mewn hanner munud?

## Rhoi cyfarwyddiadau o un lle i’r llall

Ysgrifenna gyfarwyddiadau i rywun fynd o un lle i’r llall i weld os y gall ddod o hyd i’r ffordd. Fe allet ti ddefnyddio map stryd, creu map neu ysgrifennu cyfarwyddiadau o un lle i’r llall yn y tŷ neu yn yr ardd.





## Cadwyn Bapur

Gwna di a ffrind gadwyn bapur yr un gan ddefnyddio stribedi papur a glud a gweld pwy fedr wneud y gadwyn bapur hiraf.



Defnyddia Lego i greu golygfa o Pedr yn dianc o’r carchar ac yn cerdded i dŷ gweddi.



# Posau

Dilyna'r llinellau i ddod o hyd i'r geiriau o'r stori.

| E | R | P | D |
|---|---|---|---|
| | | | |

| C | A | R | R | A | CH |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

| W | Ï | G | O | E | DD |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

| Â | G | I | T |
|---|---|---|---|
| | | | |

| U | S | C | Y | G |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| E | NG | L | A |
|---|---|---|---|
| | | | |

| C | A | N | I | D |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| R | A | G | O |
|---|---|---|---|
| | | | |

Defnyddia'r cod i ddod o hyd i'r adnod

| | |
|---|---|
| _ | a |
| _ | w |
| _ | e |
| _ | r |
| _ | o |


T_ _ _ _dd P_d_ yn y c_ _ch_ _ _ _ _dd

y_ _gl_ys yn g_ _ddï_'n d_ _ _ _ _

Ddu_ d_ _st_. _ct_u 12 _dn_d 5

Fedri di helpu Pedr i ddod o hyd i'r ffordd o'r carchar i dŷ Mair?







Lliwia'r llyfrnod isod a'i dorri allan

Byddwch yn ddiolchgar beth bynnag ydych sefyllfa chi.

1 Thessaloniaid 5 Adnod 18a



# Rysáit

## Pitsa selsig



**Byddi angen:**
- Toes pitsa parod o'r oergell
- 2 llwy fwrdd o fwstard
- 8 selsig ci poeth
- 1 llwy fwrdd o fenyn wedi ei doddi
- Cwpanaid o gaws Parmesan (neu gaws o dy ddewis)
- Tun pobi gyda phapur pobi wedi ei iro arno
- Cyllell
- Rholbren

**Dull:**
- Rho'r popty ar wres o $190^{o}$ C
- Rholia'r toes yn betryal tua 40cm x 30cm.
- Torra'r petryal yn ei hanner.
- Rho un hanner o'r toes ar y tun pobi (ar ben y papur wedi ei iro).
- Taena'r mwstard drosto gyda brwsh coginio.
- Torra'r darn arall o'r toes yn stribedi tua 3cm o led ar hyd y darn hiraf.
- Gosoda'r selsig cŵn poeth tua 3cm ar wahân ar ben y mwstard.
- Gosoda'r stribedi toes dros ac o dan y selsig i greu patrwm basged ('lattice').
- Defnyddia frwsh i daenu'r menyn wedi ei doddi dros y selsig a'r toes.
- Gwasgara'r caws dros y cyfan.
- Rho'r pitsa selsig yn y popty am 15 – 20 munud nes y bydd wedi crasu'n frown euraidd.
- Torra'n sgwariau a'i weini gyda saws coch.





# Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/4-aG-jjGRQA






Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/18gjaLofzPQ




Cartŵn (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=zzM9aFqkw6s

# Chwilair

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | O | A | N | M | A | R | C | A | P |
| A | D | O | RH | Y | DD | H | A | U | E |
| D | I | U | G | S | Y | C | D | O | D |
| M | Y | N | E | D | F | A | W | Ï | R |
| C | R | N | S | W | R | D | Y | DD | L |
| A | D | A | I | N | W | P | N | E | E |
| R | E | L | O | A | L | C | I | W | NG |
| CH | FF | F | C | W | I | R | O | G | A |
| A | R | I | U | W | M | D | C | E | LL |
| R | O | D | Y | W | DD | U | E | R | B |

AGOR
ANGEL
BREUDDWYD
CADWYNI
CARCHAR
CELL
CYSGU
DEFFRO
DIFLANNU
DRWS
DUW
GWEDDÏO
IOAN MARC
MILWR
MYNEDFA
PEDR
PWNIAD
RHODA
RHYDDHAU
SIOC

# Gweddi greadigol







## Gweddïo'n gudd

Roedd ffrindiau Pedr yn gweddïo mewn lle cudd dros Pedr. Roedd hi'n beryglus i ddilynwyr Iesu yn yr amser yma. Ond mae hi'n dal i fod yn beryglus i ddilyn Iesu mewn rhai gwledydd heddiw. Maen nhw'n Gristnogion cyfrinachol.
Maen nhw'n gorfod cuddio eu Beiblau!

**Beth i'w wneud:**

- Gwna guddfan yn rhywle yn y tŷ i weddïo. Efallai y buaset yn gallu creu ffau gan ddefnyddio hen ddillad gwely dros gadeiriau, neu greu lle yn y sied, yn y cwpwrdd dan y grisiau, tu ôl i'r soffa neu o dan y bwrdd.
- Gyrra neges gyfrinachol i aelodau dy deulu i ddod i'r guddfan.
- Pan fydd pawb wedi cyrraedd y guddfan, gofynnwch i Dduw helpu dilynwyr Iesu yn y byd sy'n gorfod cyfarfod yn gyfrinachol. Gofynnwch i Dduw eu cadw yn ddiogel, i roi dewrder iddyn nhw, a rhoi nerth i ddal ati i ddilyn Iesu a rhannu'r newyddion da amdano.

Fedri di ddod o hyd i fwy o wybodaeth ar:
https://www.opendoorsuk.org/resources/children-at-home/

# Gemau

## Ras o’r carchar i dŷ gweddi



Crea ddau dden mewn dau leoliad. Y ‘carchar’ fydd un ohonynt a ‘thŷ gweddi’ fydd y llall.

Gwna gasgliad o’r gwrthrychau sydd yn y stori. e.e. lluniau o fariau’r carchar, cymeriadau o’r hanes wedi eu gwneud allan o bapur, tŷ, carchar, angel.



Rasia’n erbyn y cloc i weld pa mor gyflym fedri di redeg yn ôl ac ymlaen gan gasglu un gwrthrych ar y tro o’r ‘carchar’ a’i adael yn y ‘tŷ gweddi.’ Neu am greu dau dîm a chael ras gyfnewid. Rhedwch o’r ‘carchar’ i’r ‘tŷ gweddi’ gan ddod ac un gwrthrych ar y tro gyda chi.



## Ras rwystrau



**Byddi angen:**
Rhwystrau wedi eu gosod ar draws yr ystafell neu’r ardd
Mwgwd dros y llygaid


**Sut i chwarae:**
Arweinia un o dy deulu drwy’r cwrs rhwystrau.
Helpa’r person drwy roi cyfarwyddiadau eglur iddo pa ffordd i fynd.

# Canu

Dwi'n siarad gyda Thi,
Dwi'n siarad gyda Thi.
Pan mae pethau trwm yn ’mhwyso i lawr,
Dwi'n siarad gyda Thi.

Dwi'n aros ynot Ti,
Dwi'n aros ynot Ti.
Does unlle mor saff â'th ddwylo Di;
Dwi'n aros ynot Ti.

Dwi'n trystio ynot ti,
Dwi'n trystio ynot ti.
Mor ffyddlon wyt ar hyd fy oes;
Dwi'n trystio ynot ti.



Dwi'n disgwyl amdanat ti,
Dwi'n disgwyl amdanat ti.
Ti'n gwybod orau f'anghenion i;
Dwi'n disgwyl amdanat ti.

Dy fywyd ynof fi,
Dy fywyd ynof fi.
Nerth i ddioddef pob un storm;
Dy fywyd ynof fi.

Dy bresenoldeb Di,
Dy bresenoldeb Di.
Ti’n newid i – fy ngwneud i’n well;
Dy bresenoldeb Di.

*Andy Hughes Hawlfraint 2021*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/18gjaLofzPQ

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes: ahughes@saintygymuned.org